**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Chwefror 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mawrth 2021 |

**PWNC**

Eitem 6:CYNLLUN BRYS AR GYFER BYSIAU

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd fod y Cyngor yn ymuno a Chynllun BES2 yn unol â'r adroddiad.

Dirprwywyd yr hawl i'r Pennaeth Amgylchedd mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno a chwblhau Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol Gwirfoddol ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith yn y Gogledd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Amlygwyd fod pandemig Covid-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar deithio ar fysiau, gyda lleihad mewn nifer y teithwyr a gofynion glanhau ychwanegol a phellhau cymdeithasol wedi cynyddu'r baich a chostau ar y gweithredwyr. Ychwanegwyd fod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi camu mewn i gefnogi'r sector gyda chymorth ariannol.

Cyn y pandemig, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar amrediad o newidiadau arfaethedig i'r ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yng Nghymru. Roedd bwriad i Ddeddf Bysiau fael ei chyflwyno yn ystod tymor presennol y Senedd. Gorfodwyd Llywodraeth Cymru i ohirio'r ddeddfwriaeth nid yn unig oherwydd Covid, ond oherwydd pwysau yn sgil y swmp o waith cyfreithiol yn gysylltiedig â Brexit a'r cyfnod trosglwyddo.

Mynegwyd bellach bod manylion yn amlinellu bwriad y Llywodraeth wedi eu cynnwys yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad. Yn ogystal, nodwyd fod dirprwy Weinidog Economi a Thrafnidiaeth wedi annog awdurdodau lleol i ymuno a'r Ail Gynllun Brys ar gyfer Bysiau.

Bellach roedd y Llywodraeth wedi paratoi cynllun pellach BES2 ac roedd angen penderfynu ymuno yn y cynllun yma ar gyfer Gogledd Cymru gan hefyd gyfarch yr anegn am drefniadau llywodraethu rhanbarthol rhwng yr awdurodau trafnidiaeth.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Chwefror 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mawrth 2021 |

## PWNC

Eitem 7:ADOLYGIAD PARCIO

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd yr addasiadau i'r Strategaeth Barcio drwy newid trefniadau rheoli parcio a gweithredu'r strwythur ffioedd parcio yng Ngwynedd fel bod modd ei weithredu o'r 1 Ebrill 2021. Cytunwyd addasiad hwyr ychwanegol i'r adroddiad, yn cysoni oriau gorfodi Meysydd Parcio Band 1 i fod yn weithredol rhwng yr oriau 10am a 4:30pm, ac i gadw'r lefel incwm dan adolygiad yn ystod 2021/22, gyda golwg ar gynorthwyo'r Adran Amgylchedd pe bai'r gwir incwm o ffioedd parcio yn is na'r targed yn y gyllideb oherwydd yr addasiad hwyr yma. Awdurdodwyd y Pennaeth Amgylchedd i gymryd y camau statudol angenrheidiol i roi'r gyfundrefn ffioedd diwygiedig ar waith erbyn 1 Ebrill 2021.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd angen i ddiweddaru'r strategaeth barcio a chynnig datrysiadau priodol er mwyn cyrraedd gofynion pobl yr oes fodern, yn ogystal â chyfarch lefel incwm digonol sydd yn ddisgwyliedig gan yr Adran.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Chwefror 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mawrth 2021 |

## PWNC

Eitem 8:CYNLLUN PRYNU TAI I'W GOSOD I DRIGOLION GWYNEDD

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr achos busnes dros fuddsoddi £15.4m i brynu oddeutu 100 o dai i'w gosod i drigolion Gwynedd ar rent fforddiadwy gyda phob pryniant i ddangos ei hyfywdra ariannol ei hun ar sail achos wrth achos.

Cytunwyd fod y Pennaeth Tai ac Eiddo mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid yn adolygu'r trefniadau statudol ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn dilyn cyhoeddi Canllawiau Diwygiedig ar Gyfrif Refeniw Tai gan y Llywodraeth ac adrodd yn ôl i'r Cabinet petai angen penderfyniadau ychwanegol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet ar y 15 Rhagfyr 2020 gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Tai 2020/21 i 2026/27 a'r egwyddor o brynu tai oddi ar y farchnad ar gyfer eu gosod ar rent i drigolion Gwynedd.

Mynegwyd fod y gallu ariannol i greu Cynllun Gweithredu Tai yn deillio'n bennaf o'r penderfyniad i sefydlu Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi, ond nodwyd fod y Cynllun yn amlygu'r cyfle i fynd gam ymhellach drwy fenthyca'n ddarbodus er mwyn ariannu pryniant oddeutu 100 o dai i'w gosod i drigolion Gwynedd.

Yn ôl yn Rhagfyr, nodwyd y bydd y cynllun Prynu i Osod yn destun adroddiad ac achos busnes penodol ac amlygwyd mai diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r achos busnes dros weithredu'r cynllun.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Chwefror 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mawrth 2021 |

## PWNC

Eitem 9:CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23 - ADOLYGIAD 2021-22

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 Adolygiad 2021/22 yn amodol ar addasiadau i eiriad Blaenoriaeth 4 a Blaenoriaeth 7, ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cyngor Llawn fabwysiadu Cynllun y Cyngor 2018-23 ym Mawrth 2018. Nodwyd fod cynnwys y Cynllun yn cael ei adolygu yn flynyddol i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu ei waith yn ôl anghenion pobl Gwynedd.

Amlygwyd angen i'r Cabinet ei gymeradwyo fel bod modd argymell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadau yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Chwefror 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mawrth 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 10:STRATEGAETH GYFALAF Y CYNGOR

---

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i:

- ariannu'r bwlch cyllido ar gyfer Canolfan Dolfeurig (£600,000)
- ariannu'r bwlch cyllido ar gyfer safle cyn Dŷ'r Ysgol, Llanrug (£150,000), gan ad-ennill rhan helaeth o'r buddsoddiad gwreiddiol drwy werthu'r tŷ a rhan o'r tir ar gyfer gwireddu cynlluniau tai fforddiadwy i drigolion lleol a gwneud gwelliannau i'r ysgol gynradd
- ddarparu £2m pellach er mwyn cychwyn ar y gwaith o adeiladu unedau diwydiannol yn y sir
- aros i weld beth fydd canlyniad trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am y Prom Abermaw cyn ystyried unrhyw ddyraniadau pellach yn y Cynllun Asedau.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cyngor Llawn ym Mawrth 2019 fabwysiadu Cynllun Asedau ar gyfer cyfnod o 10 mlynedd. Nodwyd fod y Cynllun yn rhagdybio'r adnoddau y bydd gan y Cyngor ar gyfer y 10 mlynedd i ddod a'r holl gynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Roedd yr adroddiad yn blaenoriaethu'r cynlluniau hynny fel bod modd eu cyflawni gan ystyried yr adnodd oedd yn debygol o fod ar gael.

Mynegwyd fod y sefyllfa adnoddau wedi newid ychydig ers i'r cynllun gael ei gymeradwy ac o'i ganlyniad roedd angen ystyried pa addasiadau sydd eu hangen i'r Cynllun.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Chwefror 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mawrth 2021 |

## PWNC

Eitem 11:CYLLIDEB 2021-22

## PENDERFYNIAD

Cytunwyd i argymell i'r Cyngor Llawn ar y 4 Mawrth y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £271,751,360 ar gyfer 2021/22 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £194,793,140 a £76,958,220 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.7%.
2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £47,085,960 yn 2021/22 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

Nodwyd byddai'r ffigyrau yn argymhelliad 1 uchod yn newid yn unol â'r ffigyrau yn Atodiad 6 o'r adroddiad pe bai'r Cyngor llawn yn cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor o 50% i 100%.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2021/22. Nodwyd erbyn 2021/22, fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant sy'n cyfarch chwyddiant, a bod y setliad yn fwy teg na fu ers blynyddoedd. Er hynny, mynegwyd fod rhaid cymryd rhai penderfyniadau i ariannu cynnydd sydd bron yn anorfod yng nghost rhai gwasanaethau craidd ynghyd a chodi'r Dreth 3.7%. Argymhellwyd codi'r Dreth 3.7% yn 2021/22 er mwyn amddiffyn gwasanaethau hanfodol i bobl Gwynedd, gan y byddai'n anymarferol i weithredu cynlluniau arbedion ychwanegol eleni.

Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2021/22 ond mae'n ofyniad i'r Cabinet i argymell y gyllideb i'r Cyngor llawn.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Chwefror 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mawrth 2021 |

## PWNC

Eitem 12:PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth fod Cyngor Gwynedd:

- Yn caniatáu dim disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
- Yn caniatáu dim disgownt ac yn codi premiwm o 100% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
- yn caniatáu dim disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn codi premiwm 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr yn argymell cadw lefelau'r Premiwm yn 50% ar gyfer 2021/22. Cyflwynwyd gwelliant yn y cyfarfod i ohirio'r penderfyniad a gofyn i'r Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu'r lefel i hyd at 100% a gofyn i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma.

Bu i'r Cabinet benderfynu ar 15 Rhagfyr cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ym mis Rhagfyr yn unol ag Adran 12, 12B a 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Cyflwynwyd canlyniadau'r ymgynghoriad, a rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r rhain yn ogystal ag astudiaethau o sefyllfa tai gwyliau yng Ngwynedd a'r Cynllun Gweithredu Tai, fel bod modd i'r Cabinet bwyso a mesur cyn penderfynu ar argymhelliad i'w gynnig i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cyng. Dyfrig Siencyn gan fod perthynas agos yn berchen eiddo sydd yn cael ei effeithio gan y Premiwm Treth Cyngor, roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.